

Clawr y Polisi.

Dyma ddogfen ddrafft at ddibenion
ymgynggori yn unig.

Cynnwys

PWRPAS Y POLISI	3
DEDDFWRIAETH, POLISI A CHYD-DESTUN	3
CYFLWYNIAD	3
YMAGWEDD GYDWEITHREDOL.....	4
Egwyddorion Arweiniol	4
Y BROSES	4
Asesiad	5
Cymhwysedd	6
Canlyniadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Chynllun Gofal a Chefnogaeth	7
Eiriolaeth	8
DEWIS YR UNIGOLYN	8
Dewisiadau Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Ymarfer	8
Enghreifftiau o Arferion.....	9
Costau Ychwanegol / Taliadau Ychwanegol mewn Lleoliadau Gofal Nyrsio a Phreswyl i Oedolion.....	9
Dewis gwasanaeth tu allan i'n gwasanaethau a gomisiynir	10
Dewis Darparwr Taliad Uniongyrchol	10
Preswyliaeth Gyffredin	11
Gofal Cartref - Cynnig Priodol.....	11
Gofal Cartref - Dewis Gofalwr neu Asiantaeth.....	12
Ailalluogi.....	12
Rhyddhau o'r ysbyty	13
Diwallu Anghenion Cefnogaeth Hirdymor 24 Awr	13
Cefnogaeth wedi'i drefnu eu hunain ar gyfer gwasanaethau y tu hwnt i gymhwysedd	14
Canolfan Ddydd / Gwasanaethau Dydd / Gofal Dydd.....	14
Darparu Offer	15
Addysg bellach.....	15
Gofal seibiant	15
APELIADAU	16

PWRPAS Y POLISI

Mae'r polisi'n nodi cyfrifoldebau Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint mewn perthynas â chynllunio a chomisiynu gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer unigolion yn Sir y Fflint. Gan sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth yn cael eu grymuso i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gofal, a galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy, teg, a chost effeithiol.

DEDDFWRIAETH, POLISI A CHYD-DESTUN

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol Cymru ynghyd ac yn ei moderneiddio.

Mae'n **rhaid** darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau a Chodau Ymarfer cysylltiedig.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015.
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Canllawiau Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty 2025
- Polisi Codi Tâl Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint

CYFLWYNIAD

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i ddiwallu anghenion a darparu canlyniadau gan hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn seiliedig ar gryfderau. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion lle bo disgwyl iddynt gyfranogi i ddiwallu eu hanghenion a chanlyniadau, gan ddefnyddio eu cryfderau, galluedd a rhwydweithiau cefnogi lle bo'n briodol.

Yn y cyd-destun hwn, mae anghenion yn gymwys i'w diwallu drwy Gynllun Gofal a Chefnogaeth a reolir gan yr Awdurdod Lleol dim ond os *"yw'r angen yn un nad yw'r unigolyn yn gallu ei ddiwallu ar ei ben ei hun, gyda gofal a chefnogaeth gan eraill sy'n fodlon neu'n gallu darparu gofal a chefnogaeth, neu gyda chefnogaeth gwasanaethau yn y gymuned"* (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - Rhan 4 y Cod Ymarfer).

Wrth benderfynu sut y gellir diwallu anghenion orau, bydd y Cyngor yn cefnogi'r unigolyn i ymchwilio ystod o ddewisiadau, gan gynnwys adnoddau'r unigolyn, cefnogaeth gan deulu neu rwydweithiau cymunedol, a gwasanaethau atal neu gyffredinol.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr â phobl i gynnal eu llais a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent ei hangen i ddiddymu rhwystrau lles ac annibyniaeth. Mae'r polisi hwn yn amlinellu pryd a sut y mae prosesau comisiynu, asesu a chynllunio gofal yn gweithio i gefnogi unigolion i reoli eu gofal a chefnogaeth i gyflawni eu canlyniadau personol drwy:

- Rymuso unigolion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal a chefnogaeth.

- Sicrhau bod darpariaeth gofal wedi'i deilwra i ganlyniadau personol.
- Cynnal sefydlogrwydd ariannol a gwerth am arian mewn darpariaeth gwasanaeth.
- Hyrwyddo tryloywder, tegwch a chyd-gynhyrchu wrth gynllunio gofal.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu comisiynu neu eu darparu gan Gyngor Sir y Fflint (ac eithrio cyfrifoldebau penodol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).

Gwasanaethau gofal sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn:

- Asesiadau anghenion a phenderfyniadau cymhwysedd
- Cynllunio gofal a chefnogaeth
- Taliadau uniongyrchol
- Gwasanaethau gofal a gomisiynir
- Gwasanaethau cefnogi gofalwyr

YMAGWEDD GYDWEITHREDOL

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno cyfrifoldeb ar gyfer awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth gydag unigolion a / neu eu cynrychiolydd i nodi eu hanghenion cymwys gyda'i gilydd ac yna cynllunio a diwallu eu hanghenion mewn modd sy'n bwysig iddynt.

Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo integreiddio, a chydweithio, rhwng gweithwyr cymdeithasol, darparwyr gofal ac unigolion i hysbysu dull sy'n hyrwyddo annibyniaeth unigolion ac yn sicrhau bod ganddynt lais cryf a rheolaeth dros eu gofal a chefnogaeth.

Mae'r dull yn cydnabod pan fydd cyfrifoldeb i gynllunio a chyfarwyddo gofal a chefnogaeth yn y cartref yn cael ei rannu, mae unigolion yn fwy tebygol o gael eu hanghenion wedi'u diwallu mewn modd sy'n bwysig iddynt, gan arwain at wella lles ac ansawdd bywyd.

Egwyddorion Arweiniol

Mae'r egwyddorion arweiniol, yn neilltuoel o'i gilydd, yn tanategu'r polisi hwn:

- **Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae'n rhaid dylunio gofal a chefnogaeth o amgylch anghenion yr unigolyn, eu dewisiadau a'u dyheadau. Bydd y sgwrs "Beth sy'n bwysig" yn ganolog i'r holl asesiadau a chynllunio.
- **Dewis a Rheolaeth:** Mae gan unigolion yr hawl i fynegi dewisiadau o ran y math, darparwr a lleoliad y gofal. Bydd y dewisiadau sy'n diwallu'r canlyniadau a nodwyd yn cael eu harchwilio.
- **Darpariaeth sy'n ymwybodol o gostau:** Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i reoli cyllid cyhoeddus yn gyfrifol. Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am ddiwallu'r holl anghenion a nodir ar gyfer unigolyn. Ond, pan fyddant yn cael eu nodi fel eu bod yn gyfrifol amdanynt, a lle bo sawl dewis gofal priodol yn diwallu'r un anghenion, bydd y datrysiad sydd fwyaf cost effeithiol sy'n cynrychioli'r gwerth gorau ar gyfer cyllid cyhoeddus yn cael ei flaenoriaethu.
- **Cyd-gynhyrchu a Thryloywder:** Bydd yr holl ddatrysiadau'n cynnwys dull cydweithredol yn cynnwys unigolion, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Y BROSES

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith ar gyfer proses asesu, cymhwysedd a chynllunio Gofal a Chefnogaeth drwy sefydlu sail gyfreithiol ar gyfer dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n hyrwyddo lles, annibyniaeth, a chyfranogiad gweithredol. Mae'n amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol i nodi anghenion gofal a chefnogaeth, gan bennu cymhwysedd, a datblygu cynlluniau sydd wedi'u teilwra sy'n adlewyrchu amgylchiadau, canlyniadau a galluoedd unigol. Mae'r ddeddfwriaeth yn sicrhau bod asesiadau'n gyfannol, cynhwysol, ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, gan ystyried rôl gofawyr anffurfiol ac adnoddau cymunedol.

Asesiad

Mae Asesiad Gofal Cymdeithasol neu sgwrs "Beth sy'n bwysig", yn broses ffurfiol a ddefnyddir i benderfynu pa ofal a chefnogaeth sydd eu hangen ar unigolyn i fyw mor annibynnol a diogel â phosibl. Mae'n cael ei arwain gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n pwysleisio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ceisio hyrwyddo lles, annibyniaeth a dewis.

Mae'r Cod Ymarfer (Rhan 3) yn nodi bod yn rhaid i asesiad y Cyngor asesu ac ystyried y canlynol:

- Amgylchiadau'r unigolyn.
- Eu canlyniadau personol.
- Unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Unrhyw risgiau i'r unigolyn neu i unigolion eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny.
- Cryfderau a gallu'r unigolyn.

Hefyd, ar gyfer teuluoedd a phlant, mae'n rhaid i'r egwyddorion canlynol danategu dull y Cyngor o asesu:

- Canolbwyntio ar y plentyn.
- Wedi'u gwreiddio mewn datblygiad plant.
- Bod yn gyfannol o ran dull.
- Sicrhau cyfle cyfartal.
- Gweithio gyda phlant a'u teuluoedd.
- Adeiladu ar gryfderau yn ogystal â nodi anawsterau.
- Cynnwys dull rhyngasiantaethol o asesu a darparu gwasanaethau.
- Bod yn broses barhaus, nid digwyddiad unigol.
- Cael ei gynnal ochr yn ochr â chymau eraill a darparu gwasanaethau.
- Wedi'u seilio ar wybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint gyfrifoldeb i asesu anghenion unigolyn os ydynt yn byw yn Sir y Fflint, neu eu bod yn Sir y Fflint ar hyn o bryd ac nad ydynt yn byw yn rhywle arall fel arfer, a:

- Gall yr unigolyn fod angen gofal a chefnogaeth, neu
- Bod yr unigolyn yn ofalwr di-dâl a allai fod angen cefnogaeth, neu
- Mae'r unigolyn yn blentyn lle bo posibilrwydd fod gan y plentyn anghenion gofal a chefnogaeth yn ategol at, neu yn lle'r, gofal a chefnogaeth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn.

Nid yw hawl i asesiad yn golygu bod unigolyn yn gymwys neu y byddant yn derbyn gwasanaethau, gan gynnwys Taliad Uniongyrchol gan y Cyngor. Mae'r asesiad yn ein cynorthwyo i ddeall sefyllfa'r unigolyn a pha gefnogaeth sydd ar gael drwy ystod o ddulliau, er enghraifft, gall hyn gynnwys - ond nid yw'n gyfyngedig i- strategaethau hunan-gymorth, sefydliadau trydydd sector, gwasanaethau statudol, neu gyfuniad o'r rhain, a dulliau eraill.

Bydd y broses asesu'n penderfynu a oes gan unigolyn anghenion cymwys yn unol â'r meini prawf cymhwys a nodir yn y Codau Ymarfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

I grynhoi, bydd gan unigolyn anghenion cymwys pan:

1. Fydd eu hanghenion yn deillio o salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg; ac
2. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu cyflawni un neu fwy o ganlyniadau personol; a
3. Mae hyn wedi, neu'n debygol o gael, effaith sylweddol ar eu lles.

Cymhwysedd

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 yn nodi'r prawf cymhwysedd cenedlaethol unigol y dylai'r holl gynghorau ei ddefnyddio.

Bydd y broses asesu'n penderfynu cymhwysedd yn unol â'r rheoliadau ac yn ystyried:

1. Mae'n **rhaid** i anghenion yr unigolyn ddeillio o salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar sylweddau, neu amgylchiadau tebyg.
2. Mae'n **rhaid** i'r anghenion hyn effeithio ar allu'r unigolyn i:
 - Ymdopi â thasgau dyddiol fel bwyta, ymolchi, gwisgo, neu gadw eu cartref yn ddiogel.
 - Cyfathrebu'n effeithiol.
 - Aros yn ddiogel rhag camdriniaeth neu esgeulustod.
 - Cymryd rhan mewn gwaith, addysg, neu hamdden.
 - Cynnal perthnasoedd neu ofalu am blentyn.
3. Mae'n **rhaid** i'r unigolyn fethu â diwallu'r anghenion hyn eu hunain - naill ai oherwydd bod gwneud hynny'n
 - achosi poen sylweddol, gorbryder neu drallod i'r person hwnnw;
 - yn peryglu neu'n debygol o beryglu iechyd neu ddiogelwch yr unigolyn neu berson arall;
 - yn cymryd llawer mwy o amser i'r unigolyn hwnnw nag a ddisgwylir fel arfer.
4. Ni **ddylai** bod unrhyw un arall (fel gofalwr neu wasanaeth cymunedol) yn fodlon ac yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn.

Os ydynt yn bodloni'r pedwar amod, gallent fod yn gymwys am gefnogaeth.

Wrth benderfynu sut y gellir diwallu anghenion, bydd y Cyngor yn ystyried:

- Cryfderau a gallu'r unigolyn
- Y gefnogaeth sydd ar gael gan deulu, ffrindiau neu eraill
- Argaeledd gwasanaethau yn y gymuned neu wasanaethau atal

Bydd presenoldeb cefnogaeth gan eraill yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad, ond mae'n rhaid i hyn fod yn briodol, cynaliadwy ac yn unol â dymuniadau'r rhai sy'n darparu'r gofal.

Mae cymhwysedd yn cael ei benderfynu mewn perthynas ag anghenion penodol yn hytrach na'r person yn ei gyfanrwydd h.y. gall rhai o anghenion gofal a chefnogaeth unigolyn fod yn gymwys ond nad yw rhai eraill, a gall hyn newid dros amser wrth i amgylchiadau newid.

Canlyniadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Chynllun Gofal a Chefnogaeth

Gall yr asesiad arwain at nifer o ganlyniadau:

- Rhannu cyngor am y gwasanaethau atal sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt.
- Datblygu Cynllun Gofal a Chefnogaeth a reolir.
- Cyfuniad o'r ddau.

Os, ar ôl yr asesiad, y cytunir bod yr unigolyn yn gymwys ar gyfer cefnogaeth a bod y Cyngor yn mynd i ddarparu gwasanaethau, gallwn greu cynllun gofal a chefnogaeth mewn cydweithrediad gyda'r unigolyn a fydd yn nodi'r gwasanaethau fydd yn cael eu darparu neu'r Taliadau Uniongyrchol yn lle'r gwasanaethau i ddiwallu'r holl neu rai o'r canlyniadau a nodwyd.

Bydd hyn yn nodi canlyniadau a gytunwyd ar gyfer yr unigolyn a beth fydd yn cael ei wneud i'w diwallu, er enghraifft, beth fydd gwasanaethau gofal yn ei roi ar waith. Bydd hefyd yn cynnwys manylion am bethau y mae'r unigolyn yn mynd i'w wneud eu hunain a beth mae pobl eraill neu sefydliadau eraill yn mynd i'w wneud hefyd.

Mae'n bwysig cofio bod pob asesiad wedi'i deilwra i gyd-fynd ag anghenion unigol yr unigolyn. Hyd yn oed os yw sefyllfa'r unigolyn yn ymddangos yn debyg i sefyllfa rhywun arall, fe allai'r gefnogaeth fod yn wahanol - oherwydd efallai nad yw beth sy'n gweithio orau i un person am fod yr un fath â beth sy'n gweithio orau i rywun arall.

Er bod y broses o gael Asesiad Gofal Cymdeithasol a bod Cynllun Gofal a Chefnogaeth yn rhad ac am ddim, gellir codi tâl (gan gynnwys Taliad Uniongyrchol) am wasanaethau yn dilyn yr asesiad, ac felly bydd asesiad ariannol (a elwir hefyd yn 'brawf modd') i ganfod a yw'r unigolyn yn gymwys i dderbyn cymorth gyda chostau gwasanaethau gofal ac, os felly, faint sydd angen iddynt ei gyfrannu tuag at y costau.

Mae Cynllun Gofal a Chefnogaeth yn cael ei bersonoli ar gyfer yr unigolyn felly bydd y cynnwys yn dibynnu ar y canlyniadau a nodir. Mae'r mathau o gefnogaeth yn cynnwys:

- Cymorth gan ofalwyr cartref neu ofal yn y cartref.
- Gwasanaethau gofal canolradd (gan gynnwys ailalluogi) i helpu'r unigolyn i adennill annibyniaeth a hyder ar ôl salwch neu anaf.
- Amser mewn gweithgaredd dydd ystyrlon neu i gwrdd â phobl a chymdeithasu.
- Lleoliad hirdymor mewn cartref gofal.
- Gofal seibiant

Fel rhan o'r broses, gall yr unigolyn dderbyn awgrymiadau nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth, er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Addasiadau neu offer i wneud eu cartref yn fwy diogel a haws i fyw ynddo.

- Larwm personol i alw am gymorth neu ddewisiadau offer eraill i gefnogi'r unigolyn neu'r teulu i fagu hyder fel bod risgiau'r unigolyn oherwydd eu bod yn byw ar eu pennau eu hunain yn cael eu lleihau.
- Ffyrdd y gall unigolyn gael mynediad at gefnogaeth gyda danfoniadau bwyd neu baratoi prydau lle nad oes canlyniadau gofal a chefnogaeth eraill yn gysylltiedig ag amser bwyd.

Dylid adolygu'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu anghenion gofal penodol yr unigolyn, ond gall yr unigolyn ofyn bod hyn yn cael ei wneud yn gynt os ydynt yn teimlo nad yw'n diwallu eu hanghenion mwyach, neu nad ydynt yn teimlo eu bod angen y gefnogaeth sydd ar waith mwyach. Hefyd, efallai y byddwn yn adolygu cynllun gofal a chefnogaeth ar adeg arall i sicrhau bod y gefnogaeth yn parhau i fod yn briodol.

Eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn helpu pobl i gael llais, i ddeall eu hawliau, mynegi eu safbwyntiau a'u dyheadau, a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae eiriolaeth yn cefnogi unigolion i gyfranogi wrth asesu eu hanghenion, cynllunio eu gofal a chefnogaeth, ac adolygu'r canlyniadau y maent eisiau eu cyflawni.

Pan fydd gan unigolyn anhawster wrth gyfranogi yn y prosesau hyn ac nad oes ganddynt unigolyn priodol i'w cefnogi, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i gynorthwyo i sicrhau eu bod yn cael llais, dewis a rheolaeth. Mae'r Cyngor yn comisiynu darparwyr eiriolaeth annibynnol i ddarparu'r gefnogaeth pan fo'r meini prawf statudol wedi'u diwallu, gan helpu unigolion i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cefnogaeth.

DEWIS YR UNIGOLYN

Mae'r egwyddorion canlynol yn tanatgu dull Cyngor Sir y Fflint o ddarparu gofal a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gynaliadwy o safbwynt ariannol. Mae'r egwyddorion hyn yn adlewyrchu ein dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'n hymrwymiad i hyrwyddo lles, ymreolaeth ac urddas unigol. Ar yr un pryd, maent yn cydnabod pwysigrwydd stiwardiaeth gyfrifol o adnoddau cyhoeddus. Trwy ymgorffori'r egwyddorion hyn ym mhob agwedd o gynllunio gofal a darpariaeth gwasanaeth, mae'r awdurdod yn ceisio sicrhau bod unigolion yn derbyn cefnogaeth briodol, effeithiol a theg sy'n alinio eu canlyniadau personol gydag anghenion ehangach y gymuned.

- Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dewis a Rheolaeth
- Darpariaeth sy'n ymwybodol o gostau
- Cyd-gynhyrchu a Thryloywder

I gael rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion hyn, gweler tudalen 5.

Dewisiadau Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Ymarfer

- Byddwn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau i ystyried beth mae'r unigolyn yn gallu ei wneud neu ei drefnu eu hunain, er enghraifft drwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol neu adnoddau cymunedol.

- Pan fydd canlyniad yn cael ei nodi nad yw'r unigolyn yn gallu ei ddiwallu eu hunain heb gefnogaeth y Cyngor, bydd y Cyngor yn cefnogi'r unigolyn i ystyried dewisiadau i ddiwallu'r canlyniadau a nodwyd.
- Pan fydd mwy nag un dewis yn gallu diwallu canlyniadau'r unigolyn yn briodol a hyrwyddo eu lles, gall y Cyngor ystyried y costau a chynnig datrysiad sy'n cynrychioli'r gwerth gorau ar gyfer cyllid cyhoeddus. Mae'n rhaid i unrhyw ddewis sy'n cael ei gynnig fod yn addas i ddiwallu anghenion cymwys yr unigolyn a chydymffurfio â dyletswyddau'r awdurdod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Bydd unigolion yn derbyn cefnogaeth i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar gyfer eu gofal, gan gynnwys dealltwriaeth o oblygiadau ariannol y dewisiadau gwahanol sydd ar gael iddynt.
- Os bydd unigolyn yn dewis rhywbeth sy'n ddrytach na chynnig yr awdurdod, bydd gofyn iddynt ddiwallu'r gost ychwanegol.
- Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer gwasanaeth wedi'i ariannu neu ei ariannu'n rhannol gan y Cyngor, mae'n rhaid cwblhau'r prosesau asesu a gwirio cymhwysedd priodol. Ni fydd y Cyngor yn cyfrannu at gyllid oni wneir hynny.
- Bydd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hyrwyddo fel ffordd arall o alluogi unigolion i arfer eu dewis a rheolaeth dros sut i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Pan fydd unigolyn yn gymwys ac yn diwallu'r amodau ar gyfer Taliad Uniongyrchol, bydd y Cyngor yn trefnu bod y dewis ar gael yn unol â'r rheoliadau perthnasol.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gyda darparwyr i benderfynu ar gyfradd briodol ar gyfer pob math o gefnogaeth, gan ystyried amodau'r farchnad leol a'r ddyletswydd i sicrhau gwerth am arian.
- Bydd yr awdurdod yn sicrhau mynediad teg at ddewisiadau gofal, waeth beth fo'u statws economaidd gymdeithasol, ethnigrwydd, anabledd neu nodweddion gwarchodedig eraill.

Enghreifftiau o Arferion

Er nad yw'n gynhwysfawr, mae rhai enghreifftiau sut caiff y polisi hwn ei gymhwyso'n ymarferol wedi cael eu casglu.

Costau Ychwanegol / Taliadau Ychwanegol mewn Lleoliadau Gofal Nyrsio a Phreswyl i Oedolion

- a) Taliadau Ychwanegol 3ydd Parti
Gall y cartref godi mwy na chyfradd safonol a gomisiynir gan y Cyngor ar gyfer y math o ofal y mae'r unigolyn wedi cael ei asesu i fod angen. Os yw unigolyn wedi dewis byw mewn gofal

cartref sy'n costio mwy na chyfradd safonol y Cyngor. Yn yr achos hwn, bydd 3ydd Parti angen cytuno i ariannu'r taliad ychwanegol.

A/neu

b) Ffioedd Ychwanegol

Gall ffi safonol y cartref fod yn unol â chyfradd safonol a gomisiynir gan y Cyngor, fodd bynnag, efallai byddent yn codi tâl ychwanegol am rywbeth a ddarperir sydd tu allan i'r gyfradd safonol a gomisiynir y bydd y Cyngor yn ei dalu. Gall y ffioedd ychwanegol hyn gynnwys, er enghraifft, ystafell sydd yn well mewn rhyw ffordd i ystafell safonol neu wasanaethau ychwanegol eraill.

Bydd hyn yn golygu:

- gall y Cyngor gynnig lleoliad amgen sy'n bodloni canlyniadau personol ond yn fwy fforddiadwy o fewn ei fframwaith ariannu.
- bydd gofyn i'r unigolyn (neu'r teulu) gyfrannu er mwyn talu'r gwahaniaeth mewn cost os ydynt yn dymuno byw yn y cartref gofal dewisol. Rhaid cael cytundeb mewn perthynas â'r ymrwymiad parhaus i dalu'r costau ychwanegol hyn (gweler (a) Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal a Chymorth a (b) Polisi Ffioedd Ychwanegol i gael mwy o wybodaeth).
- efallai bydd angen symud i gartref gofal gwahanol os nad yw taliadau ychwanegol ar gael neu os nad yw'n gynaliadwy.

Dewis gwasanaeth tu allan i'n gwasanaethau a gomisiynir

Enghreifftiau i'w cadarnhau

Dewis Darparwr Taliad Uniongyrchol

Mae gan unigolyn yr hawl i ddewis Taliad Uniongyrchol i drefnu ei gofal a chymorth eu hunain er mwyn diwallu eu canlyniadau cytunedig. O dan Daliadau Uniongyrchol, bydd yr unigolyn yn dewis pwy hoffent i ddarparu eu gofal a chymorth a gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer hyn, gan gynnwys dewis dyddiau ac amser ar gyfer y gefnogaeth.

Fodd bynnag, ni all yr unigolyn ddewis cyfradd y tâl ar gyfer y gofal a chymorth. Mae'r Cyngor wedi gosod strwythur ffioedd (a adolygir yn flynyddol) sy'n nodi cyfradd talu yn dibynnu ar statws cofrestrriad AGC y darparwr gofal dewisol. Ni fydd y Cyngor yn gwyro oddi wrth y strwythur ffioedd a bennir. Os yw unigolyn yn dewis mynd tu allan i'r strwythur, byddent yn atebol am unrhyw gostau ychwanegol.

Hefyd, rhaid i Daliadau Uniongyrchol gael ei ddefnyddio i ddiwallu'r canlyniadau a osodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth:

- Nid all y Taliadau Uniongyrchol gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau tu allan i'r hyn a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth.
- Os yw unigolyn wedi dewis defnyddio darparwr sy'n codi mwy na'r gyfradd safonol, ni allent leihau nifer yr oriau / canlyniadau a ddarperir gan y Taliad Uniongyrchol i gadw o fewn y costau a ddyrannir.

Rhaid i unrhyw beth tu allan i'r asesiad a dyraniad mewn perthynas â gweithgaredd neu gost gael ei ariannu gan yr unigolyn. Gall ddefnydd amhriodol o'r Taliad Uniongyrchol roi'r Taliad Uniongyrchol hwnnw mewn risg. I gael mwy o wybodaeth ar Daliadau Uniongyrchol, ewch i'r Polisi Taliadau Uniongyrchol.

Preswyliaeth Gyffredin

Mae preswyliaeth gyffredin yn cyfeirio at y lleoliad mae'r unigolyn fel arfer yn byw ac wedi dewis ymgartrefu'n wirfoddol. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, mae'n pennu pa Gyngor sy'n gyfrifol am asesu ac ariannu anghenion gofal a chymorth unigolyn.

- Mae'n cyfeirio at y lleoliad mae'r unigolyn fel arfer yn byw ac wedi dewis ymgartrefu'n wirfoddol, am gyfnod byr neu am gyfnod hir.
- Nid yw'n ymwneud â phresenoldeb ffisegol yn unig - mae'n ystyried bwriad, parhaus a natur yr arhosiad.
- Gall unigolyn fod yn breswlydd arferol mewn un ardal hyd yn oed os ydynt yn byw dros dro yn rhywle arall (e.e. mewn ysbyty)

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, mae gan Breswyliaeth Gyffredin effaith ar bwy a sut gall unigolyn dderbyn cymorth i ariannu gofal a chymorth. Rhaid i unigolion a/neu eu teuluoedd sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r effaith pan fyddent yn gwneud penderfyniadau am ble dylai unigolyn fyw.

Mae'r egwyddor graidd yn nodi mae preswyliaeth gyffredin unigolyn yw'r lleoliad maent wedi:

- Dewis byw **yn wirfoddol**, ac
- Wedi sefydlu bywyd rheolaidd, sefydlog

Nid oes angen parhad hirdymor; gall unigolyn fod â phreswyliaeth gyffredin hyd yn oed ar ôl cyfnod eithaf byr os ydynt wedi symud at ddibenion ymgartrefu. Mae'n cynnwys symud i fyw i eiddo ar eu pen eu hunain neu i leoliad cartref gofal preswyl. Yr egwyddor yw eu bod wedi dewis symud i'r lleoliad hwnnw.

Fodd bynnag, os yw Cyngor wedi bod yn rhan o'r penderfyniad, mae preswyliaeth gyffredin yn parhau gyda'r Cyngor yn rhan o'r lleoliad hwnnw.

Er enghraifft:

1. Mae unigolyn o Sir y Fflint yn dewis yn annibynnol i symud i gartref gofal yng Nghaerdydd i fod yn agosach at eu teulu. Nid yw Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn rhan o'r asesiad na phenderfyniad yn ymwneud â symud. Caerdydd yw eu preswyliaeth gyffredin bellach.
2. Mae'r Cyngor yn asesu unigolyn o Sir y Fflint gan ddod i'r casgliad ei fod angen preswyl mewn lleoliad 24 awr. Os yw'r unigolyn hwnnw yna'n symud i fyw i gartref gofal yng Nghaerdydd, maent yn parhau â phreswyliaeth gyffredin Sir y Fflint.

Gall eithriadau fod yn gymwys os yw'r lleoliad o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gofal Cartref - Cynnig Priodol

Os nodir bod pecyn gofal cartref yn briodol i ddiwallu anghenion unigolyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r unigolyn i gytuno ar fandiau amser addas ar gyfer y gefnogaeth. Gweler y Siarter Gofal Cartref ar gyfer y bandiau amser cyfredol.

Os yw darparwr yn gallu cynnig cefnogaeth o fewn y band amser cytunedig, bydd hyn fel arfer yn cael ei ystyried yn gynnig rhesymol. Bydd yr unigolyn yn cael eu hysbysu o fanylion y pecyn.

Os fydd yr unigolyn yn gwrthod cynnig, bydd y Cyngor yn trafod y rhesymau ac yn ystyried a yw'r rhesymau yn newid y canlyniadau neu amgylchiadau. Dim ond os pennir hynny, y ceisir unrhyw

drefniadau amgen. Fodd bynnag, os yw cynnig yn addas i ddiwallu'r anghenion a asesir, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau dewis a ffefrir pe byddai hyn yn arwain at gost neu oedi anghymesur.

Gofal Cartref - Dewis Gofalwr neu Asiantaeth

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan unigolion sy'n derbyn gofal yr hawl i leisio eu barn a bod yn rhan actif o'r penderfyniadau am eu gofal, gan gynnwys mynegi eu dewisiadau, a dylai hyn gael ei ystyried yn iawn wrth gynllunio gofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi hawl cyfreithiol absoliwt i ofyn am weithwyr gofal gyda rhyw, ethnigrwydd neu nodwedd warchodedig arall, penodol. Rhaid i ofalwyr gofal gydbwysu dymuniadau'r unigolyn gyda'u rhwymedigaethau o dan gyfraith cydraddoldeb, ymarferoldeb o ran argaeledd staff a'u dyletswydd i osgoi anghydraddoldeb.

Felly, os yw unigolyn yn mynegi bod well ganddynt ofalwyr gofal rhyw penodol, yn arbennig mewn perthynas â thasgau gofal personol, bydd hyn yn cael ei ystyried a gwneir ymdrech i fodloni'r dewis hwn, fodd bynnag ni ellir sicrhau hyn. Os nad yw'r dewis rhyw penodol ar gael, ni fydd hyn yn atal "cynnig priodol" o becyn gofal cartref rhag cael ei dderbyn (gweler adran 6.2.6 - Gofal Cartref - Cynnig Priodol).

Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol lle mae asesydd wedi pennu bod gofyniad am ofalwr o ryw penodol, bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynnig.

Ailalluogi

Mae ail-alluogi yn rhaglen asesu a chefnogaeth dymor byr, wedi'i dylunio i helpu defnyddwyr gwasanaeth i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth. Gall hyn olygu ail-alluogi mewn cartref gofal neu yn eu cartref eu hunain.

Mae nifer o resymau pam y gall unigolyn fod angen cyfnod o gymorth ail-alluogi, er enghraifft:

- Gwneud y mwyaf o annibyniaeth yr unigolyn yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty neu salwch (i gael gwybodaeth mewn perthynas â chefnogaeth rhyddhau o'r ysbyty, ewch i 6.2.8 Rhyddhau o'r Ysbyty).
- Yn dilyn newid mewn amgylchiadau yn y cartref sydd wedi arwain at leihad mewn hyder a sgiliau o ran gweithgareddau bywyd bob dydd.

Yn ystod y cyfnod dechreuol o roi cymorth ail-alluogi, mae disgwyl i ganlyniadau hirdymor yr unigolyn gael eu hasesu. Yn dilyn yr asesiad hwn, gallai'r cymorth i'r unigolyn:

- Gael estyniad am hyd at 6 wythnos, os oes cadarnhad eu bod yn gymwys am gymorth ail-alluogi.
- Dod i ben, os nad yw'r unigolyn yn gymwys am gymorth ail-alluogi mwyach.
- Trosglwyddo i drefniant mwy hirdymor y bydd angen talu amdano.

Mae cymorth ail-alluogi'n cael ei gynnig yn rhad ac am ddim am uchafswm o chwe wythnos, neu nes na fydd yr unigolyn yn gymwys am gymorth ail-alluogi mwyach - pa bynnag un ddaw gyntaf.

Yn gyffredinol, darperir cymorth ail-alluogi trwy ddarpariaeth fewnol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint, ond gall hefyd fod yn ddarparwr sector annibynnol.

Os oes penderfyniad bod angen pecyn cymorth hirdymor, bydd angen i'r pecyn cymorth symud o'r darparwr mewnol i ddarparwr sector annibynnol.

Bydd y Tîm Broceru yn caffael y pecyn parhaus, a phan fydd cynnig priodol yn cael ei dderbyn, bydd y pecyn yn cael ei drosglwyddo i'r darparwr newydd (gweler adran 6.2.6 - Gofal Cartref - Cynnig Priodol).

Rhyddhau o'r ysbyty

Er y gellir rhyddhau rhai unigolion o'r ysbyty i'w cartrefi eu hunain yn ddiogel, bydd eraill angen cefnogaeth wrth bontio er mwyn adennill eu hannibyniaeth. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r GIG i leihau effaith oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty er budd unigolion sy'n profi niwed anfwriadol o aros yn yr ysbyty am gyfnodau hir a / neu i sicrhau bod gwelyau ysbyty'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer rhai sydd angen gofal a thriniaeth barhaus.

Pan fydd person yn barod i'w rhyddhau o'r ysbyty a'u bod angen gofal a chefnogaeth barhaus, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid iechyd, yr unigolyn a (lle bo'n briodol) eu teulu i nodi lleoliad addas neu drefniadau cefnogi.

Er mwyn osgoi oedi diangen wrth ryddhau o'r ysbyty, efallai y bydd lleoliad cychwynnol yn cael ei drefnu ar sail argaeledd ac addasrwydd i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r unigolyn, a bydd eu dewisiadau'n cael eu hystyried cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac ymarferol.

Os nad y lleoliad cartref gofal cychwynnol yw'r dewis a ffefrir gan yr unigolyn yn hirdymor, rhoddir ystyriaeth bellach i drefniadau amgen ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty.

Ar ddiwedd y cyfnod ailalluogi, os yw person yn aros mewn ystafell cartref gofal sydd wedi'i dynodi'n benodol ar gyfer ailalluogi ac nad yw'r trefniadau ar gyfer cam nesaf eu gofal yn eu lle eto, bydd y Cyngor yn ystyried dewisiadau dros dro. Mae hyn fel arfer yn cynnwys symud yr unigolyn i ystafell arall yn yr un cartref gofal neu i gartref gofal arall nes bo cam nesaf eu taith yn barod, boed yn ddychwelyd i'w cartref neu aros mewn lleoliad cartref gofal hirdymor. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau gofal ailalluogi, dros dro a gofal preswyl hirdymor ar gael yn y Polisi Codi Tâl.

Diwallu Anghenion Cefnogaeth Hirdymor 24 Awr

Pan fydd unigolyn wedi'u hasesu fel bod angen gofal a chefnogaeth 24 awr arnynt, bydd y Cyngor yn cynnig y dewis mwyaf priodol er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn ac o fewn y fframwaith cyllid, bydd hyn fel arfer yn darparu ar gyfer lleoliad cartref gofal neu Fyw â Chymorth.

Pan fydd unigolyn yn dewis aros yn eu cartref gyda gofal a chefnogaeth yn y cartref, bydd y Cyngor yn cynnig Taliad Uniongyrchol yn unol â strwythur ffioedd y Cyngor sy'n gyfwerth â lleoliad mewn cartref gofal ar lefel yr anghenion a aseswyd yn unig. Os yw costau trefnu gofal a chefnogaeth yn uwch, bydd yr unigolyn yn gyfrifol am ddiwallu'r costau ychwanegol eu hunain.

Pan fydd asesiad yn nodi canlyniad priodol a fyddai'n cefnogi unigolyn i gael annibyniaeth ac annog cynnydd, gan leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol yn hirdymor, bydd y dewis hwn yn cael ei flaenoriaethu ac ar gyfer costau gwirioneddol trefnu gofal a chefnogaeth y tu hwnt i hyn, bydd yr unigolyn yn gyfrifol am ddiwallu'r costau ychwanegol eu hunain.

Cefnogaeth wedi'i drefnu eu hunain ar gyfer gwasanaethau y tu hwnt i gymhwysedd

Pan fydd unigolyn yn dewis trefnu gofal a chefnogaeth yn annibynnol heb dderbyn asesiad gan y Cyngor, ni ellir gwarantu y bydd y Cyngor yn cefnogi'r gwasanaethau hyn yn ariannol yn y dyfodol pe byddai'r unigolyn yn gwneud cais am asesiad am gefnogaeth yn ddiweddarach. Byddai asesiadau, canlyniadau a datrysiadau'n cael eu hystyried yn unol â pholisi'r Cyngor.

Er enghraifft:

Cefnogaeth yn y Cartref

Os yw unigolyn yn teimlo eu bod yn cael trafferth gyda symudedd ac yn penderfynu yr hoffent dderbyn cymorth gyda thasgau dyddiol fel coginio a glanhau, mae ganddynt y dewis i wneud trefniadau ar gyfer hyn yn breifat.

Os ydynt yn gwneud hyn heb gysylltu â'r Cyngor am asesiad gofal cymdeithasol ac yn gwneud trefniadau gydag asiantaeth gofal yn y cartref sy'n cael ei dalu fel trefniant preifat, pe byddent eisiau / angen cysylltu â'r Cyngor am gymorth pellach yn y dyfodol ni fyddai'r trefniant preifat yn cael ei warantu fel rhan o unrhyw gefnogaeth sy'n cael ei roi ar waith gan y Cyngor.

Fel y byddai ar gyfer unrhyw un sy'n ceisio cefnogaeth, mae'n rhaid i'r unigolyn ymgymryd ag asesiad i benderfynu ar eu cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth a chytuno ar eu canlyniadau; ond, os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad nad yw eu hanghenion yn diwallu'r trothwy cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal sy'n cael eu hariannu, byddai'r Cyngor yn gwrthod ariannu'r gwasanaethau gofal sydd wedi'u trefnu'n breifat, oherwydd nad ydynt wedi'u pennu fel rhai gofynnol o dan y meini prawf cymhwyso.

Gofal Preswyl a Gofal Ychwanegol

Os yw unigolyn yn ei chael yn anodd ymdopi â'u harferion dyddiol, mae ganddynt y dewis o wneud trefniadau llety yn breifat. Gallai hyn gynnwys symud i fyw i leoliad gofal ychwanegol neu gartref gofal er enghraifft. Byddai hyn yn drefniant hunan-ariannu yn defnyddio incwm a chynilon yr unigolyn.

Os ydynt yn gwneud hyn heb gysylltu â'r Cyngor am asesiad gofal cymdeithasol ac yn gwneud trefniadau eu hunain, pe byddent eisiau / angen cysylltu â'r Cyngor am gymorth pellach yn y dyfodol, gan gynnwys os yw eu cynilon yn dod i ben, ni ellir gwarantu'r trefniant preifat drwy unrhyw gefnogaeth sydd yna'n cael ei darparu gan y Cyngor, gan gynnwys yn ystod y cyfnod diystyru o 12 wythnos (i gael rhagor o wybodaeth am y cyfnod diystyru 12 wythnos, gweler y Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal a Chefnogaeth).

Mae'n rhaid i'r unigolyn dderbyn asesiad i bennu eu cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth a chytuno ar eu canlyniadau. Os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad nad yw eu hanghenion yn diwallu'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cyllid gofal preswyl - efallai oherwydd y byddai modd diwallu eu hanghenion drwy gefnogaeth yn y gymuned, byddai'r Cyngor yn gwrthod ariannu lleoliad yn y cartref gofal, ac mae'r unigolyn yn parhau i fod yn gyfrifol am gostau llawn eu llety a'u gofal.

Canolfan Ddydd / Gwasanaethau Dydd / Gofal Dydd

Pan fydd asesiad yr unigolyn yn nodi y bydd gwasanaeth / canolfan / gofal dydd yn diwallu eu hanghenion a nodwyd, bydd y Cyngor yn cynnig y gyfradd safonol ar gyfer y ddarpariaeth. Os yw unigolyn yn dewis mynychu gwasanaeth / canolfan / gofal dydd sy'n codi cyfradd uwch, bydd yr unigolyn yn gyfrifol am ariannu'r gwahaniaeth.

Darparu Offer

Pan fydd asesiad yn nodi y byddai offer neu addasiadau'n ddull priodol a chymesur o ddiwallu anghenion unigolyn, bydd hyn fel arfer yn cael ei gynnig / argymhell.

Os yw unigolyn yn dewis peidio â derbyn yr offer a argymhellir, bydd y Cyngor:

- Yn ceisio deall y rhesymau dros y penderfyniad
- Yn darparu gwybodaeth bellach neu archwilio datrysiadau amgen lle bo'n briodol

Bydd y Cyngor yn ceisio diwallu'r canlyniadau a nodwyd yn y modd lleiaf cyfyngol a'r modd mwyaf priodol. Pan fydd ymyrraeth sy'n llai dwys neu sydd â chostau is yn gallu diwallu anghenion a chanlyniadau unigolyn yn briodol, nid oes gofyn i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth sy'n fwy dwys. Er enghraifft, os oes modd cyflawni canlyniadau'r unigolyn yn effeithiol drwy ddarparu offer, bydd y Cyngor yn darparu hyn yn lle ymweliad gofal yn y cartref dyddiol, hyd yn oed os mai dyma yw'r dewis a ffefrir gan yr unigolyn.

Yn yr un modd, pan fydd asesiad wedi'i gwblhau gydag argymhelliad i ddarparu darn o offer, ac y byddai'r unigolyn yn ffafrio model gwahanol i ddewis safonol y Cyngor, ni fydd y Cyngor yn diwallu'r dewis hwn.

O dan amgylchiadau o'r fath, bydd unigolion yn cael cynnig Taliad Uniongyrchol sy'n gyfwerth â dewis safonol y Cyngor, a byddent yn gyfrifol am brynu'r offer ac ariannu'r gost ychwanegol eu hunain.

Mae'n rhaid i'r offer sy'n cael ei brynu ddiwallu angen a nodwyd a'i ddefnyddio'n unol â'i ddiben a'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol. Bydd unrhyw bryderon o ran addasrwydd, defnydd diogel, neu briodoldeb yr offer yn cael eu hadolygu a'u cadarnhau gan y Therapydd Galwedigaethol.

Addysg bellach

Pan fydd addysg bellach wedi'i gynnwys fel rhan o Gynllun Gofal a Chefnogaeth, rhoddir blaenoriaeth i'r coleg agosaf sy'n gallu diwallu anghenion yr unigolyn. Bydd y gallu i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn cael ei benderfynu gan weithwyr proffesiynol y coleg a'r portffolio Addysg.

Pan fydd unigolyn yn dewis mynychu coleg, eu cyfrifoldeb hwy yw trefnu cludiant i'r coleg hwnnw. Pan geisir cludiant bydd yn cael ei adolygu fesul achos yn unol â'r Polisi Cludiant.

Os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad y gellir diwallu anghenion yr unigolyn drwy leoliad coleg dydd, dyma fydd cynnig y Cyngor. Os mai coleg preswyl yw dewis a ffefrir yr unigolyn, byddai taith o hyd at 1 awr y naill ffordd a'r llall yn cael ei ystyried yn rhesymol cyn y byddai lleoliad coleg preswyl yn cael ei ystyried. Ni fydd lleoliad coleg preswyl yn cael ei ystyried ar gyfer lleoliadau gyda llai nag 1 awr o daith heb amgylchiadau eithriadol.

Gofal seibiant

Gall gofal seibiant olygu sawl peth gwahanol, gydag ystod o ddewisiadau ar gael i ddiwallu'r angen hwn. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth yng nghartref yr unigolyn, mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol, gwasanaethau dydd, seibiant byr dymor, cefnogaeth gan deulu a rhwydweithiau cymunedol neu drefniadau eraill sy'n galluogi gofalwyr ac unigolion i gyflawni'r canlyniadau bwriedig.

Pan fydd angen wedi'i asesu ar gyfer seibiant dros nos neu seibiant sy'n fwy hirdymor ar gyfer y gofalwr, mae darpariaeth seibiant dros nos yn cael ei asesu drwy Becyn Gwaith Seibiant sy'n sicrhau cydraddoldeb dyraniad ar gyfer anghenion tebyg ar draws y gwasanaethau. Pan gytunir ar seibiant dros nos fel rhan o Gynllun Gofal a Chefnogaeth, mae'r unigolion yn gallu defnyddio'r dyraniad yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion drwy ystod o ddewisiadau mewnol a thrwy ddarparwyr y sector annibynnol, gan gynnwys drwy Daliadau Uniongyrchol.

Mae cyfraddau gwasanaethau seibiant yn cael eu cytuno ochr yn ochr â'r cyfraddau safonol ar gyfer y mathau o ofal sy'n cael eu nodi yn y Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal a Chefnogaeth.

Pan fydd unigolyn yn dewis defnyddio Taliad Uniongyrchol i ddiwallu eu canlyniadau seibiant dros nos, bydd Taliad Uniongyrchol yn cael ei ddarparu am gost lleoliad cyfwerth a fyddai'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn neu gyfradd safonol Taliad Uniongyrchol 24 awr, pa bynnag un sydd fwyaf cost effeithiol ar gyfer y Cyngor.

APELIADAU

Pe byddai unigolyn yn anghytuno â phenderfyniad yn ymwneud â'u gofal a chefnogaeth, maent yn cael eu hannog i godi'r mater gyda'u gweithiwr cymdeithasol yn y lle cyntaf er mwyn gallu adolygu, a lle bo modd, datrys pryderon yn anffurfiol.

Gall y Cyngor gynnig adolygu neu ailystyried penderfyniadau lle bo'n briodol.

Nid yw hyn yn effeithio ar hawl yr unigolyn i wneud cwyn ar unrhyw adeg o dan weithdrefn gwynion statudol y Cyngor. Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn y Polisi Cwynion a Sylwadau.